



Cymraeg Gwaith  
Work Welsh

# Dysgu Cymraeg gyda Cymraeg Gwaith



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Dysgu  
Learn



- **Wyt ti eisiau datblygu dy sgiliau Cymraeg?**
- **Wyt ti eisiau cyfrannu at wasanaethau dwyieithog dy sefydliad?**
- **Wyt ti eisiau defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith?**

**Mae gan gynllun Cymraeg Gwaith gyrsiau i dy gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.**

### **Manteision dysgu Cymraeg trwy gynllun Cymraeg Gwaith**

- cyrsiau ar dy lefel di
- cyrsiau i dy helpu yn y gwaith
- cyrsiau dwys i wneud cynnydd mewn amser byr
- cyrsiau i godi dy hyder i ddefnyddio Cymraeg
- datblygiad personol i ti
- datblygiad proffesiynol yn y gwaith
- mynediad at gyrsiau pellach yn dy ardal di
- cyfle i ti ddefnyddio'r Gymraeg yn dy gymuned, adref a gyda'r teulu



## Pa gyrsiau sydd ar gael?

Mae yna sawl ffordd o ddysgu Cymraeg gyda Cymraeg Gwaith:

- Cwrs ar-lein **Croeso Cymraeg Gwaith**
- Cyrsiau dwys **Dysgu Cymraeg Gwaith**
- Cyrsiau preswyl **Defnyddio Cymraeg Gwaith**

## Croeso Cymraeg Gwaith: Cwrs Ar-lein

Cwrs i ddechreuwr ychydig neu dim sgiliau Cymraeg er mwyn gallu delio â'r cyhoedd yn y gwaith a defnyddio ymadroddion defnyddiol.

Mae'r cwrs yn cynnwys 10 Uned ac yn cymryd 10 awr i'w gwblhau. Gellir dilyn y cwrs ar unrhyw bryd trwy unrhyw ddyfais.

Erbyn diwedd y cwrs byddi di'n medru:

- cyflwyno dy hun;
- dechrau sgwrs a'i gorffen yn briodol;
- defnyddio a deall ymadroddion cyfarwydd, e.e. cyfarchion, diolch, rhoi cyfarwyddiadau;
- rhoi manylion personol elfennol, e.e. enw, enw'r cwmni, cyfeiriad;
- canfod dewis iaith cwsmer;
- trosglwyddo galwad ffôn i siaradwyr Cymraeg;
- deall a defnyddio cyfarchiadau anffurfiol dwyieithog wrth agor a chau cyfarfodydd, wrth ateb y ffôn, neu wrth siarad wyneb yn wyneb gyda chwsmeriaid a chydweithwyr;
- dangos cwrteisi wrth ddelio ag ymholiadau Cymraeg;
- deall ymholiadau syml;
- deall unrhyw ymadroddion a ddefnyddir yn gyson yn y gweithle os yw'r siaradwr Cymraeg yn siarad yn araf;
- deall geiriau sylfaenol perthnasol i dy fan gwaith; e.e. mewn swyddfa neu gyfarfod.

## Dysgu Cymraeg Gwaith: Cyrsiau Dwys

Cyrsiau dwys yw Dysgu Cymraeg Gwaith fydd yn cynyddu dy sgiliau Cymraeg ac yn dy gefnogi i weithio'n ddwyieithog a chynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cyhoedd.

Mae gwahanol lefelau o gyrsiau ar gael – Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Mae'r tabl isod yn egluro'r lefelau.

Lefel	Lefelau Fframwaith Cyngor Ewrop	Disgrifiad
Mynediad	A1	Cyrsiau ar gyfer dechreuwr, ble mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.
Sylfaen	A2	Mae cyfle i fyfyrwr gryfhau eu sgiliau siarad.
Canolradd	B1	Mae mwy o ysgrifennu, darllen a gwrando yn cael eu cyflwyno ar y lefel hon – ond mae'r pwyslais o hyd ar siarad yr iaith.
Uwch	B2	Mae cyrsiau yn helpu myfyrwr i gryfhau eu sgiliau ysgrifennu, ond eto, mae'r prif bwyslais ar gryfhau sgiliau siarad.
Hyfedredd	C1	Mae cyrsiau ar gael ar gyfer dysgwyr profiadol yn ogystal â siaradwyr rhugl sydd eisieu cryfhau eu sgiliau, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

## Defnyddio Cymraeg Gwaith: Cwrs preswyl pum niwrnod

Cwrs preswyl pum niwrnod fydd yn canolbwyntio ar roi'r hyder i ti ddefnyddio'r Gymraeg yw Defnyddio Cymraeg Gwaith. Mae'n addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi cyrraedd lefel Canolradd (B1) neu uwch, siaradwyr sy'n ddihyder yn Gymraeg a siaradwyr Cymraeg hyderus sydd angen gwella eu sgiliau iaith.

Mae'r cyrsiau preswyl yn cael eu cynnal gan Nant Gwrtheyrn, canolfan iaith ym Mhen Llŷn. Mae tîm Nant Gwrtheyrn hefyd yn darparu'r cyrsiau mewn lleoliad preswyl yn Aberteifi a Chaerdydd. Mae lluniaeth, llety a'r adnoddau dysgu angenrheidiol ar gyfer y cyfnod preswyl yn rhan o'r pecyn.

Gall y cyrsiau gynnwys y canlynol:

- cyrsiau i godi hyder dysgwyr da a siaradwyr Cymraeg dihyder,
- cyrsiau sydd wedi'u teitwra yn benodol fesul sector neu swydd,
- cyrsiau atodol cyffredinol sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr a gweithwyr, a



- chysiau wedi eu hanelu at unigolion allweddol o fewn sefydliadau, e.e. swyddogion adnoddau dynol a staff rheng flaen.

Mae rhagor o wybodaeth am yr holl gyrsiau uchod ar gael ar wefan [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru). Gallet ti hefyd fynd ar y wefan i gofnodi dy ddiddordeb mewn un o'r cyrsiau.

## Adnoddau i dy helpu i ddysgu a defnyddio Cymraeg

Mae adnoddau ar gael i dy helpu i barhau gyda'r dysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl bod ar gwrs:.

- **llyfrau a deunydd darllen** perthnasol e.e. gwrslyfrau, geiriaduron, termiaduron
- **deunyddiau ar-lein** defnyddiol megis:
  - Porth Termau Cenedlaethol: [www.termiau.cymru](http://www.termiau.cymru)
  - Geiriadur yr Academi: [www.geiriaduracademi.org](http://www.geiriaduracademi.org)
  - Geiriadur Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: [www.geiriadur.net](http://www.geiriadur.net)
- **meddalwedd gwirio iaith** e.e. Cysgliad a/neu gymhorthion Microsoft:
  - Cysgliad: [www.cysgliad.com](http://www.cysgliad.com)
  - Microsoft: <https://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/microsoft.php.cy>
- rhaglen **To Bach** wedi ei osod ar gyfrifiaduron a gliniaduron er mwyn hwyluso ysgrifennu yn y Gymraeg
  - [www.interceptorsolutions.com/tobach](http://www.interceptorsolutions.com/tobach)
- **pecyn rhyngwyneb Microsoft**
  - [www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/microsoft.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/microsoft.php.cy)

## Ymarfer dy Gymraeg yn y gwaith

Mae cael y cyfle i ymarfer dy sgiliau Cymraeg newydd yn bwysig. Mae'n syniad i ti drafod y posibilïadau gyda dy reolwr llinell. Dyma rai syniadau:

- Gallet wisgo **laniard** a **bathodyn** sy'n dangos i eraill dy fod yn dysgu Cymraeg a dy fod yn barod i roi cynnig arni.
- Gallet osod **rhyngwyneb Cymraeg** ar dy gyfrifiadur i dy helpu di i wneud defnydd o'r Gymraeg ar dy gyfrifiadur.
- Mae dros 200 o **apiau** ar gael yn Gymraeg gan gynnwys ap i gefnogi **rhagfynegi testun** Cymraeg ar dy **ffôn** neu ar dy **fysellfwrdd**. Cer i [www.apiauyngymraeg.com/pob-ap/](http://www.apiauyngymraeg.com/pob-ap/) i weld rhagor.
- Gallet ofyn i gael dy **baru gyda chydweithiwr neu fentor Cymraeg** rhugl a hyderus, er mwyn derbyn cefnogaeth ac anogaeth un-i-un yn y gweithle.
- Gallet ti ymuno â **chyfleoedd cymdeithasol gyda chydweithwyr** lle mae cyfle i ti ymarfer dy Gymraeg a sefydlu patrymau defnydd iaith newydd e.e. grŵp paned-a-sgwrs, cylch cerdded amser cinio, noson gwis, noson gymdeithasol ac ati.



## Ymarfer dy Gymraeg tu allan i'r gwaith

Y ffordd orau i ddatblygu dy sgiliau iaith yw ymarfer.

Gallet ymarfer sgiliau gwranddo a deall drwy wyllo neu wrando ar raglenni Cymraeg ar S4C neu Radio Cymru.

**S4C:** [www.s4c.cymru](http://www.s4c.cymru)

Gallet ti ddefnyddio gwasanaeth 'dal fyny' ar-lein S4C, ac mae Dal Ati yn wasanaeth arbennig gan S4C ar gyfer dysgwyr ar lefel Canolradd (B1) i Uwch (B2). Mae'n cynnig gwybodaeth, geirfa, clipiau a mwy i roi hyder a mwynhad wrth i ddysgwyr symud ymlaen ar y daith i ddod yn rhugl.

**BBC Radio Cymru:** Mae holl raglenni Radio Cymru ar gael o'r wefan [www.bbc.co.uk/radiocymru](http://www.bbc.co.uk/radiocymru) neu gallet wrando eto drwy [www.bbc.co.uk/iplayer](http://www.bbc.co.uk/iplayer). Mae **podlediadau** ar gyfer dysgwyr hefyd ar gael ar [www.bbc.co.uk/programmes/p02nrvyj/episodes/downloads](http://www.bbc.co.uk/programmes/p02nrvyj/episodes/downloads) neu defnyddia'r botwm VOCAB ar wefan **BBC Cymru Fyw**.

Mae llawer o bobl yn defnyddio Cymraeg mewn grwpiau **Facebook** ac ar **YouTube**. Cer i bori a gweld beth sydd o ddiddordeb i ti.

Mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol ym mhob rhan o Gymru. Byddai holi am gyfleoedd gan dy **Fenter Iaith** leol yn le da i gychwyn. Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n gweddu diddordebau o bob math hefyd ar wefan [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru).



# Cymorth a chefnogaeth bellach



Mae cymorth, gwybodaeth a  
chefnogaeth ar gael i ti drwy  
gysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol drwy'r dulliau  
canlynol:

[cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru](mailto:cymraeggwaith@dysgucymraeg.cymru)  
[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)

Ffôn: 0300 323 4324

 [@learncymraeg](https://twitter.com/learncymraeg)

 [www.facebook.com/learncymraeg](https://www.facebook.com/learncymraeg)



**Cer amdani.  
Rho gynnig ar  
ddefnyddio'r  
Gymraeg!**

